


# ROLAU NEWYDD YM MAES IECHYD A GOFAL

## UWCH-YMARFERYDD PARAFEDDYGOL

- clinigydd arbenigol sy'n gweithio i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y lleoliadau argyfwng a gofal brys a gofal heb ei drefnu; gall asesu, gwneud diagnosis, trin ac atgyfeirio cleifion i gael gofal.

## UWCH-YMARFERYDD CLINIGOL

- yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol, megis nyrsio, fferylliaeth, parafeddygon a bydwreigiaeth, ac ati; yn helpu i wella parhad clinigol, yn cyfrannu at dimau amlddisgyblaethol ac yn darparu gofal i gleifion.

## YMARFERYDD CYNORTHWYOL/CYSWLLT

- rôl nad yw'n ymwneud â galwedigaeth benodol, sy'n helpu i ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf; nid yw'n ymarferydd cofrestredig, ond mae ganddo sgiliau o lefel uchel a ddatblygwyd trwy brofiad a hyfforddiant.

## YMARFERYDD FFERYLLOL CLINIGOL

- fferyllydd trwyddedig a gymeradwywyd i ddarparu rheolaeth therapi cyffuriau o dan oruchwyliaeth meddyg trwyddedig.

## FFISIOTHERAPYDD CYSWLLT CYNTAF

- ymarferydd clinigol cymwys sy'n gallu asesu, gwneud diagnosis, trin a rheoli problemau cyhyrysgerbydol; gellir ei gyrchu trwy hunanatgyfeiriad neu drwy Feddyg Teulu.

## CYNORTHWYYDD YMARFER MEDDYGOL

- yn darparu cymorth gweinyddol a chymorth arall i feddygon teulu.

## HYFFORDDWR IECHYD A LLES

- yn defnyddio sgiliau hyfforddi i gefnogi pobl i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder i gymryd rhan yn eu gofal eu hunain, a datblygu nodau iechyd a llesiant.

## YMARFERYDD NYRSIO

- nyrs gofrestredig uwch-ymarfer, wedi'i hyfforddi i asesu anghenion cleifion, trefnu a dehongli profion diagnostig/labordy, gwneud diagnosis o glefydau a llunio cynlluniau triniaeth.

## GWEITHIWR CYSWLLT PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL

- yn cefnogi pobl i wella eu lles trwy fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol/anghlinigol, gan atgyfeirio'n aml at grwpiau trydydd sector a gweithgareddau cymunedol.

## YMARFERYDD MEDDYGOL OPTHALMIG

- yn archwilio llygaid, yn profi golwg, yn gwneud diagnosis o annormaleddau ac yn presgripsiynu lensys cywirol.

## THERAPYDD GALWEDIGAETHOL

- yn cefnogi pobl ag anawsterau corfforol, meddyliol, cymdeithasol neu ddatblygiadol; yn cefnogi cleifion eiddil, ag anghenion cymhleth, sy'n byw â chyflyrau cronig neu iechyd corfforol/meddwl, ac ati.

## TECHNEGYDD FFERYLLFA

- yn ategu gwaith fferyllwyr clinigol wrth gynnal archwiliadau, rheoli'r broses ryddhau a rhoi presgripsiynau, yn aml dan oruchwyliaeth fferyllydd clinigol.

## CYDYMAITH MEDDYGOL

- gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ag addysg feddygol sy'n gweithio ochr yn ochr â meddygon a llawfeddygon ac o dan eu goruchwyliaeth.

## YMARFERYDD LLES SEICOLEGOL

- yn asesu ac yn cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl cyffredin, megis gorbryder ac iselder.

## PODIATRYDD

- gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud diagnosis ac yn trin cyflyrau'r traed a'r coesau.

## AWDIOLEGWYR GOFAL SYLFAENOL

- yn rheoli ac yn trin clustiau/y clyw a symptomau sy'n gysylltiedig â chydbwysedd, megis tynnu cwyr o glustiau.

## YMARFERYDD GWYDDOR GOFAL IECHYD ARBENIGOL

- yn cymhwyso technoleg i gyflawni ac adrodd ar brofion, ymchwiliadau a gweithdrefnau; yn gallu asesu pa mor effeithiol yw triniaethau a sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.


IECHYD A GOFAL GWLEDIG CYMRU
RURAL HEALTH AND CARE WALES

www.ruralhealthandcare.wales/cy/hafan
ebost: cyswllt@iechydagofalgwledig.cymru
Ffôn: (01970) 635918